# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 10

HAWLIADAU MEDDIANT: PWERAU'R LLYS MEWN PERTHYNAS Â SEILIAU YN ÔL DISGRESIWN

(MAE'R BENNOD HON YN GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH)

### 210 Seiliau rheoli ystad

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r landlord o dan gontract meddiannaeth yn gwneud hawliad meddiant o dan adran 160 ar un neu ragor o'r seiliau rheoli ystad.

(2) Ni chaiff y llys wneud gorchymyn adennill meddiant ar y sail honno (neu ar y seiliau hynny) oni bai—

(a) ei fod yn ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny, a

(b) ei fod yn fodlon bod llety arall addas ar gael i ddeiliad y contract (neu y bydd ar gael i ddeiliad y contract pan fydd y gorchymyn yn cael effaith).

(3) Mae Atodlen 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhesymoldeb gwneud gorchymyn am feddiant.

(4) Penderfynir a oes llety arall addas ar gael i ddeiliad y contract neu a fydd ar gael gan roi sylw i Atodlen 11.

(5) Os yw'r landlord yn gwneud hawliad meddiant ar Sail B o'r seiliau rheoli ystad a bod y cynllun ailddatblygu yn cael ei gymeradwyo o dan Ran 2 o Atodlen 8 yn ddarostyngedig i amodau, ni chaiff y llys wneud gorchymyn adennill meddiant oni bai ei fod yn fodlon bod yr amodau wedi eu bodloni, neu y cânt eu bodloni.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 210 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(6) Os yw'r llys yn gwneud gorchymyn adennill meddiant a'i bod yn ofynnol i'r landlord dalu swm i ddeiliad y contract o dan adran 160(4), o ran y swm sy'n daladwy—

(a) os nad yw wedi ei gytuno rhwng y landlord a deiliad y contract, mae i'w ddyfarnu gan y llys, a

(b) gellir ei adennill oddi wrth y landlord fel dyled sifil.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 9 wedi ei eithrio (1.12.2022) gan 2004 c. 34, a. 33(c) (fel y mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **28(2)(c)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 210 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 210 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 210 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5